OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif 1252 (Cy. 284)

# YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Maethiad (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

*Gofynion sifftio wedi eu bodloni - - - - 9 Tachwedd 2020*

*Gwnaed - - - - 10 Tachwedd 2020*

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - - 12 Tachwedd 2020*

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(**1**).

Mae gofynion paragraff 4(2) o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno (sy'n ymwneud â'r weithdrefn graffu briodol ar gyfer y Rheoliadau hyn) wedi eu bodloni.

Cynhaliwyd ymgynghoriad fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**2**).

Fel sy'n ofynnol gan baragraff 4(a) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, ymgynghorwyd â'r Ysgrifennydd Gwlad wrth lunio'r Rheoliadau hyn.

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Maethiad (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu

(**1**) 2018 p. 16.
(**2**) OJ Rhif L 31, 1.2.2002, t. 1, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 596/2009 (OJ Rhif L 188, 18.7.2009, t. 14).

**Diwygiadau i Reoliadau Maethiad (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Maethiad (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 7 (diwygio Rheoliadau Bwyd at Ddefnydd Maethol Neilltuol (Ychwanegu Sylweddau at Ddibenion Maethol Penodol) (Cymru) 2009), ym mharagraff (2)(b), yn lle ", Safonau Bwyd yr Alban neu'r Asiantaeth Safonau Bwyd yng Ngogledd Iwerddon" rhodder "neu Safonau Bwyd yr Alban".

(3) Yn rheoliad 8 (diwygio Rheoliadau Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Gofynion o ran Gwybodaeth a Chyfansoddiad) (Cymru) 2016)—

(a) hepgorer paragraff (2);

(b) ym mharagraff (3), yn y geiriau a amnewidir, yn lle "y DU" rhodder "Prydain Fawr".

*Eluned Morgan*
Y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg, un o Weinidogion Cymru

10 Tachwedd 2020

(**3**) O.S. 2019/179 (Cy. 45).

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau ym mharagraff 1(1) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16), er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae rheoliad 2 yn diwygio Rheoliadau Maethiad (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/179 (Cy. 45)) er mwyn sicrhau bod y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hynny i is-ddeddfwriaeth i Gymru ym maes maethiad yn gweithredu'n effeithiol ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

Ni luniwyd asesiad effaith ar gyfer yr offeryn hwn gan na ragwelir y bydd unrhyw effaith, neu unrhyw effaith sylweddol, ar y sector preifat na'r sector gwirfoddol.